# PWYLLGOR PENODIADAU

## Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 11 Ionawr, 2019

| | |
|---|---|
| **YN BRESENNOL:** | Y Cynghorydd Ieuan Williams (Cadeirydd)<br>Y Cynghorydd Robert G Parry OBE FRAgS (Is-Gadeirydd)<br><br>Y Cynghorwyr R Dew, Glyn Haynes, T Ll Hughes MBE, Vaughan Hughes, Llinos Medi Huws a P S Rogers. |
| **WRTH LAW:** | Prif Weithredwr,<br>Pennaeth Proffesiwn Adnoddau Dynol a Thrawsnewid,<br>Uwch Swyddog Adnoddau Dynol (DJ),<br>Swyddog Pwyllgor (MEH). |
| **YMDDIHEURIADAU:** | Y Cynghorwyr R Meirion Jones |
| **HEFYD YN BRESENNOL:** | Dim |

---

**1 DATGANIAD O DDIDDORDEB**

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiad o ddiddordeb.

**2 COFNODION**

Cadarnhawyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 16 Awst, 2018.

**3 CAU ALLAN Y WASG A'R CYHOEDD**

**PENDERFYNWYD :-**

**"O dan Adran 100(A)(4) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972, cau allan y wasg a'r cyhoedd o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitem a ganlyn oherwydd gallai olygu datgelu gwybodaeth eithriedig fel y'i diffinnir ym Mharagraff 12, Rhan 1 o Atodlen 12A i'r Ddeddf honno a'r Prawf Budd y Cyhoedd sydd ynghlwm."**

**4 APWYNTIO STAFF**

**Prif Weithredwr Cynorthwyol (Llywodraethu a Thrawsnewid Prosesau Busnes)**

Cyflwynwyd – adroddiad gan y Prif Weithredwr.

**PENDERFYNWYD :-**

- **Bod mynegiant o ddiddordeb ar gyfer swydd y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol yn cael ei hysbysebu ymysg Penaethiaid Gwasanaeth ac aelodau'r UDA ynghyd â thaliad honoraria ychwanegol am ymgymryd â'r swydd a'r cyfrifoldeb;**
- **Bod adroddiad pellach yn cael ei gyflwyno i gyfarfod nesaf y Pwyllgor Apwyntiadau.**

**Y CYNGHORYDD IEUAN WILLIAMS**
**CADEIRYDD**